Dyddiad a Crëwyd:	01/05/2018
Dyddiad y Cyhoeddwyd:	23/05/2018
Rhif y Fersiwn:	1.00

Maes Gwasanaeth:	Safonau Masnach
Maes Gwaith:	Rheoliad
Manylion cyswllt:	01443 811300
	safonaumasnach@caerffili.gov.uk
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Cyngor a Gorfodaeth Busnes
Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro'r modd y bydd Safonau Masnach Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei chyflwyno amdanoch eich hun (data personol) wedi i'r adran Safonau Masnach gysylltu â chi i roi cyngor busnes, neu i gymryd unrhyw gamau mewn perthynas â gorfodi'r gyfraith.

Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth?

Y ffynhonnell a'r math o wybodaeth a brosesir

Efallai y bydd adran Safonau Masnach Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhoi cyngor busnes i chi/eich busnes neu'r busnes sy'n eich cyflogi, ar ôl i'r canlynol ddod i law:

- Ymholiad gennych chi neu eich cwmni
- Argymhelliad o ganlyniad i ymweliad arolygu
- Cwyn gan ddefnyddiwr.

Mewn cysylltiad ag arolygiadau a chŵynion defnyddwyr, efallai y byddwn hefyd yn cymryd camau gorfodi yn eich erbyn chi/yn erbyn eich busnes neu'r busnes sy'n eich cyflogi.

Categorïau'r data personol a gesglir

Os bydd adran Safonau Masnach Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cael cwyn gan ddefnyddiwr amdanoch chi/am eich busnes neu'r busnes sy'n eich cyflogi, bydd yr adran hon yn esbonio categorïau'r data personol y gallem eu cofnodi amdanoch chi/am eich busnes neu'r busnes sy'n eich cyflogi:

- Enw
- Cyfeiriad
- Manylion cyswllt
- Eich safle yn y busnes
- Enw'r Busnes
- Manylion mater/cwyn y defnyddiwr

Ffynhonnell y data personol

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ffynhonnell yr wybodaeth hon, cysylltwch â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Efallai y bydd yn rhaid i chi wneud cais am yr wybodaeth hon fel Cais y Testun am Wybodaeth.

Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

Diben y gwaith prosesu

1. Eich cynorthwyo chi, neu eich cyflogwr, i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a orfodir gan y Safonau Masnach, ac, mewn perthynas â chŵynion, canfod a all Safonau Masnach Caerffili eich cynorthwyo â'r gwaith o ddatrys y mater.
2. Os na fydd y cyngor y bydd arnoch ei angen yn perthyn i gwmpas y Safonau Masnach, gallem rannu eich gwybodaeth â Gwasanaethau eraill y Cyngor, er enghraifft Iechyd yr Amgylchedd.
3. Os oes gan eich busnes neu eich cyflogwr gytundeb Awdurdod Cartref neu Awdurdod Sylfaenol ffurfiol ag Awdurdod Lleol arall, gallem rannu eich gwybodaeth â'r Awdurdod hwnnw.
4. Cymryd camau gweithredu ffurfiol yn eich erbyn chi neu yn erbyn eich cyflogwr, mewn perthynas â thorri'r ddeddfwriaeth Diogelu Defnyddwyr.
5. Os bydd eich busnes neu eich cyflogwr yn masnachu y tu hwnt i ffiniau daearyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, efallai y bydd eich manylion yn cael eu rhannu ag adran Safonau Masnach Awdurdodau Lleol eraill.
6. Pan fydd camau gorfodi ffurfiol yn cael eu hystyried a/neu eu cyflawni, efallai y bydd eich manylion yn cael eu rhannu ag asiantaethau gorfodi eraill. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau eraill Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, er enghraifft Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a chyrff gorfodi Awdurdodau Lleol eraill, tebyg i'r heddlu a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM).
7. Pan fydd camau gweithredu ffurfiol yn cael eu cymryd trwy'r Llysoedd, bydd eich manylion yn cael eu rhannu â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi.
8. At ddibenion dadansoddi ystadegol.
9. Cysylltu â chi mewn perthynas ag arolygon o Fodlonrwydd Busnes.

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu

Mae gan awdurdodau cyhoeddus dasg gyhoeddus, ofynnol i brosesu eich gwybodaeth, fel y manylir arni isod:

Er mwyn sicrhau bod y gwaith prosesu data personol yn gyfreithlon o dan Reoliad Cyffredinol Diogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a amlinellir isod:

1e. mae'r gwaith prosesu yn angenrheidiol i gyflawni tasg sy'n cael ei chynnal mewn perthynas â budd y cyhoedd, neu wrth gynnal yr awdurdod swyddogol a freiniwyd i'r rheolwr;

Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

Hunaniaeth y Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: diogeludata@caerffili.gov.uk
Rhif Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolwyr Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth am ragor o wybodaeth.

Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Prif ddefnyddiwr eich gwybodaeth fydd y Safonau Masnach, a hynny er mwyn rhoi cyngor priodol a chymryd camau gorfodi ffurfiol, lle bo angen. Os bydd angen cymryd camau gorfodi ffurfiol, trafodir y manylion yn llawn â chi cyn y bydd unrhyw gamau yn cael eu cymryd.

Os bydd lle i gredu y gallai un o feysydd gwasanaeth eraill Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili eich cynorthwyo yn well, bydd eich manylion personol yn cael eu hanfon at y maes hwnnw. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys Iechyd yr Amgylchedd, Cynllunio, Diogelwch Cymunedol a Phriffyrdd.

Efallai y bydd Safonau Masnach Caerffili yn defnyddio eich manylion personol i gysylltu â chi at ddibenion cynnal arolygon o fodlonrwydd busnes, er mwyn asesu a gwella'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu.

Bydd yr wybodaeth a ddarperir ar sail y gwaith o ryngweithio â'r adran Safonau Masnach yn cael ei defnyddio i gynnal dadansoddiad ystadegol, a hynny'n fewnol yng Nghyngor Sir Caerffili, ac yn allanol, fel ei gilydd. Fodd bynnag, bydd canlyniadau'r dadansoddiad yn cael eu crynhoi mewn modd na fydd yn datgelu eich manylion personol.

Manylion unrhyw arferion o ran rhannu eich gwybodaeth yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Arferion o ran rhannu gwybodaeth â meysydd gwasanaeth eraill a allai eich cynorthwyo'n well, e.e. Iechyd yr Amgylchedd, Cynllunio, Diogelwch Cymunedol a Phriffyrdd.

Manylion unrhyw arferion o ran rhannu eich gwybodaeth â sefydliadau eraill

- Efallai y bydd eich manylion yn cael eu rhannu â chyrff gorfodi'r gyfraith, a hynny at ddibenion atal neu ganfod troseddau, neu ddal neu erlyn troseddwyr
- Efallai y bydd eich manylion yn cael eu rhannu â Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol eraill (gan gynnwys Timau Rhanbarthol neu Ryngwladol), a allai eich cynorthwyo'n well i gymryd camau ffurfiol mewn perthynas â thorri'r ddeddfwriaeth Diogelu Defnyddwyr.
- Bydd eich manylion yn cael eu rhannu â'r Llysoedd os bydd achosion troseddol neu sifil yn codi o ganlyniad i gamau gweithredu ffurfiol.

Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Manylion y cyfnod cadw

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu trwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Mewn perthynas â'ch gwybodaeth, bydd yn cael ei chadw am saith mlynedd yn unol â Pholisi Cadw Dogfennau Diogelwch y Cyhoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)

Eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i'r testunau data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt), gan gynnwys:

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
  - Yr hawl i gael gwybod
  - Yr hawl i gywiro
  - Yr hawl i ddileu
  - Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
  - Yr hawl i wrthwynebu
  - Yr hawl i gludadwyedd data
  - Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk.

Er mwyn datgan eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

Y Weithdrefn Gwynion

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth, y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

www.caerffili.gov.uk/My-Cyngor/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints